



Cynllun Pwnc Athroniaeth

Rhagfyr 2018

CYMRÆG



Ariennir gan
Lywodraeth Cymru
Funded by
Welsh Government

Cyflwyniad a chyd-destun

Cyd-destun

Ym mis Ionawr 2017 cyhoeddodd y Coleg Cymraeg Cenedlaethol ei ail Gynllun Academaidd <<http://bit.ly/2rtflxT>>. Mae “Tuag at 2020 a thu hwnt” yn gynllun strategol sy’n gosod egwyddorion, nodau a fframwaith gynllunio ar lefel genedlaethol. Mae hyn yn adeiladu ar y Cynllun Academaidd cyntaf a gyhoeddwyd yn 2012 yn fuan wedi sefydlu’r Coleg.

Mae’r Cynllun Pwnc Athroniaeth yn gosod yr egwyddorion a’r nodau hynny ar waith ar lefel ddisgyblaethol.

Rôl Athroniaeth mewn Cynlluniau Gradd Eraill

Mae traddodiad o ddysgu Athroniaeth fel pwnc, neu o fewn cyrsiau megis Y Clasuron, Gwleidyddiaeth, a Diwinyddiaeth ac Astudiaethau Crefydd, wedi bodoli ers degawdau. Gan fod Athroniaeth yn ymwneud â chwestiynau gwaelodol megis natur gwybodaeth, moeseg a damcaniaeth, mae’n ddisgyblaeth a all gefnogi ac ychwanegu at brofiad dysgu sawl pwnc arall hefyd megis Hanes, Cymraeg, Cymdeithaseg a Pholisi Cymdeithasol, Chwaraeon, Y Gyfraith a Heddlua. Nid yw’n syndod, felly, fod elfennau athronyddol hefyd i’w canfod ym modiwlau nifer o gynlluniau gradd pynciau eraill, nac ychwaith fod canran helaeth o’r myfyrwyr sy’n astudio modiwlau cyfrwng Cymraeg mewn Athroniaeth ar hyn o bryd yn gwneud hynny wrth ddilyn pynciau gradd eraill, yn enwedig Gwleidyddiaeth ac Astudiaethau Crefydd. Llwyddodd Cynllun Pwnc 2012 i fapio’r ddarpariaeth Athroniaeth a gynigir trwy gyfrwng y Gymraeg yn ein prifysgolion a gosod y pwnc ar dir mwy cadarn fel disgyblaeth ar wahân.

Tra bod y cynllun hwn yn bwriadu ategu ac atgyfnerthu cyfraniad Athroniaeth at bynciau eraill, mae hefyd yn amlinellu’r ffordd ymlaen o safbwynt datblygu’r ddarpariaeth ar gyfer myfyrwyr Athroniaeth fel pwnc gradd – a cheisio sicrhau ffrwd newydd o fyfyrwyr i’r maes. O safbwynt gosod targedau a darogan twf, mae’r elfen gydweithredol sydd yn ganolog i’r cynllun yn peri rhai heriau, oblegid y ffaith bod y nifer o fodiwlau sy’n cael eu cynnig yng Nghaerdydd (sydd wedi datblygu’n gartref i’r ddarpariaeth mewn Athroniaeth) ac sydd ar gael yn gydweithredol i sefydliadau eraill, megis prifysgolion Aberystwyth, Bangor, a’r Drindod Dewi Sant, yn amrywio. Mae’r nifer o fyfyrwyr sy’n cofrestru ar y ddarpariaeth gydweithredol hefyd y tu hwnt i reolaeth y darlithwyr sy’n rhedeg y modiwlau. Fodd bynnag, nod ac amcan y cynllun pwnc hwn yw gwreiddio a sefydlogi’r ddarpariaeth a addysgir erbyn hyn o fewn gwahanol gynlluniau gradd, ond gan sicrhau hefyd fod Athroniaeth yn sefyll ar ei thraed ei hun fel pwnc gradd sydd ar gael drwy gyfrwng y Gymraeg.

Mae’r data a gyflwynir yn y cynllun hwn felly’n canolbwyntio ar y ddarpariaeth sydd ar gael ar y cwrs gradd Athroniaeth, ond hefyd yn nodi lle y mae modd astudio rhai modiwlau unigol fel rhan o bynciau gradd eraill. Fodd bynnag, nid bwriad y cynllun hwn yw rhestru pob darpariaeth Athroniaeth oddi mewn i gynlluniau gradd eraill gan y ceir cynlluniau pwnc ar wahân ar gyfer y pynciau hynny, e.e. Gwleidyddiaeth, Diwinyddiaeth ac Astudiaethau Crefydd, Hanes, Cymdeithaseg a Pholisi Cymdeithasol, ayyb. Yn y cynllun hwn, nodir niferoedd myfyrwyr ar gyfer Athroniaeth fel cynllun gradd, ynghyd â niferoedd myfyrwyr sy’n astudio modiwlau Athroniaeth fel rhan o gynlluniau gradd eraill. Mae’n egwyddor bwysig na ddylid cyfrif yr un myfyrwyr ddwywaith mewn cynlluniau pwnc, felly er gwybodaeth yn unig y nodir y myfyrwyr cydweithredol hyn. Cânt eu cynnwys yn ffurfiol yn nhargedau eu priod bynciau a’r cynlluniau pwnc perthnasol.

Proses

Cam cyntaf y broses o lunio'r cynllun hwn oedd i sefydliadau ymateb i ffurflen cynllunio pwnc. Pwrpas y ffurflen oedd casglu gwybodaeth gyfredol wrth y prifysgolion am lefel y ddarpariaeth, capasiti staffio a niferoedd myfyrwyr. Mae'r targedau yn y cynllun hwn yn seiliedig ar y wybodaeth honno ac yn gosod nodau a blaenoriaethau am y pum mlynedd nesaf a thu hwnt.

Egwyddorion a Themâu

Tra oedd y cynllun pwnc blaenorol yn canolbwyntio ar ddatblygu darpariaeth Gymraeg o'r newydd yn gydweithredol o fewn amryw o gynlluniau gradd anrhydedd, bydd y cynllun hwn yn adeiladu ar y gwaith a gyflawnwyd drwy gryfhau seiliau Athroniaeth fel pwnc gradd mewn un sefydliad, ond gan ddiogelu a chynnal y ddarpariaeth sydd ar gael i sefydliadau eraill yn gydweithredol. Wrth barhau i ddatblygu'r ddarpariaeth, bydd y cynllun hwn hefyd yn canolbwyntio ar nod Cynllun Academaidd y Coleg o gynnig addysg uwch o'r radd flaenaf i'r myfyrwyr sy'n dewis astudio o leiaf cyfran o'u cwrs drwy gyfrwng y Gymraeg. Mae profiad y myfyrwr yn greiddiol i'r egwyddor honno.

Strwythur y Cynllun

Mae'r Cynllun Pwnc Athroniaeth yn gosod fframwaith ar gyfer y cyfnod 2017/18 hyd at 2022/23. Yma, ceir ystyriaeth lawnach o'r sector ôl-16 yn ogystal ag anghenion y gweithle. Rhoddir mwy o bwyslais ar gyd-destun polisi a'r cyfleoedd a'r heriau sy'n benodol i'r maes Athroniaeth.

Mae gan Athroniaeth fel pwnc draddodiad a llenyddiaeth hir a llewyrchus yn y Gymraeg ond bu ar ei golled ers degawdau yn sgil diffyg buddsoddiad gan y prifysgolion mewn adrannau a staff arbenigol. Parhaodd rhywfaint o addysgu ac ymchwil mewn agweddau penodol ar Athroniaeth, megis Athroniaeth Wleidyddol ac Athroniaeth Grefyddol, ond ymgilio a wnaeth Athroniaeth fel disgyblaeth ac nid oedd un man yng Nghymru tan yn ddiweddar lle y gellid astudio cynllun gradd mewn Athroniaeth gydag elfen sylweddol o'r addysgu drwy gyfrwng y Gymraeg. Yn 2012, fodd bynnag, penodwyd Darlithydd Cenedlaethol yn y pwnc dan nawdd y Coleg Cymraeg Cenedlaethol, ac yn dilyn hynny datblygwyd cynllun pwnc pwrpasol. O ganlyniad i'r buddsoddiad hwn, datblygwyd darpariaeth genedlaethol newydd a gyflwynwyd yn gydweithredol i fyfyrwyr Gwleidyddiaeth, Astudiaethau Crefydd, Cymdeithaseg a Pholisi Cymdeithasol, a Hanes.

Yn ogystal, trefnwyd amryw o ddigwyddiadau a chynadleddau, a bwriwyd ati i ailgyhoeddi nifer o gyfrolau a thestunau athronyddol yn y Gymraeg. Bu cydweithio rhwng prifysgolion Caerdydd, Bangor, Abertawe, Aberystwyth a Phrifysgol Cymru Y Drindod Dewi Sant mewn blynyddoedd diweddar. Dyfarnwyd dwy Ysgoloriaeth Ymchwil gan y Coleg Cymraeg i gefnogi dau fyfyrwr PhD cyfrwng Cymraeg ym maes Athroniaeth yn ogystal.

Prifysgol Caerdydd fydd prif leoliad dysgu Athroniaeth fel pwnc gradd yn y Gymraeg gan fod dau ddarlithydd arbenigol yn cael eu cyflogi yno. Ond mae sawl ffordd y bydd modd parhau i gydweithio gyda sefydliadau eraill. Y prif ddull o wneud hyn fydd drwy ganiatáu i fyfyrwyr o sefydliadau eraill gofrestru ar fodiwlau a fydd yn cael eu harwain gan y darlithwyr Athroniaeth o Brifysgol Caerdydd, neu drwy ddatblygu modiwlau ar y cyd neu gynnig modiwlau penodol sydd wedi eu teilwra ar gyfer cynllun gradd, megis Gwleidyddiaeth neu Astudiaethau Crefydd.

Mae proses dyrannu grantiau pynciol y Coleg Cymraeg Cenedlaethol yn dibynnu ar gategori'r pwnc yn genedlaethol oddi mewn i'r Cynllun Academaidd, blaenoriaethau strategol y prifysgolion unigol a natur y gefnogaeth sy'n parhau o du'r Coleg Cymraeg (e.e. drwy'r Cynllun Staffio). Mae cyfuniad o ffactorau'n effeithio ar ddyraniad grant pynciol ac a ydyw'r prifysgolion yn cwrdd â'r meini prawf a osodwyd gan y Cynllun Academaidd Cenedlaethol. Yn 2017, mae Prifysgol Caerdydd yn cyrraedd meini prawf y Cynllun Academaidd ar gyfer Athroniaeth. Mae'r Coleg hefyd yn darparu cyllid ychwanegol i

Athroniaeth er mwyn cynnal y ddarpariaeth a gynigir yn gydweithredol mewn cynlluniau gradd eraill.

Adolygir ystod y ddarpariaeth a'r lleoliadau astudio yn flynyddol yn unol â meini prawf y Cynllun Academaidd – sef bod o leiaf chwe myfyriwr ym mhob blwyddyn yn astudio drwy gyfrwng y Gymraeg, a bod o leiaf dau aelod o staff academaidd (cyfwerth amser llawn) yn addysgu drwy gyfrwng y Gymraeg ar gyfer darpariaeth gwerth deugain credyd y flwyddyn, a phedwar aelod o staff academaidd yn addysgu drwy gyfrwng y Gymraeg ar gyfer darpariaeth gwerth wyth deg credyd y flwyddyn.

| Sefyllfa Gyfredol (2016/17) | | | |
|------------------------------------|---|---|--|
| Sefydliad Addysg Uwch | Darpariaeth | Staff | Myfyrwyr¹ |
| Prifysgol Caerdydd | <p>O leiaf 40 credyd ar gael ym mhob blwyddyn yn y Gymraeg ar gyfer Athroniaeth fel pwnc gradd.</p> <p>O leiaf 40 credyd o Athroniaeth drwy gyfrwng y Gymraeg ar gael yn gydweithredol yn y cynllun gradd Gwleidyddiaeth.</p> | <p>Un aelod o staff llawn amser ac un aelod o staff rhan-amser yn siarad Cymraeg.</p> <p>Un aelod o staff llawn amser sy'n addysgu drwy gyfrwng y Gymraeg ac un rhan-amser yn addysgu drwy gyfrwng y Gymraeg.</p> | <p>20 myfyriwr sy'n gallu siarad Cymraeg (BI1–BI3) ar draws pynciau Athroniaeth a Gwleidyddiaeth.</p> <p>O leiaf 5 ym mhob blwyddyn yn astudio drwy gyfrwng y Gymraeg.</p> |
| Prifysgol Bangor | O leiaf 20 credyd o Athroniaeth ar gael drwy gyfrwng y Gymraeg yn gydweithredol ar gyfer myfyrwyr Hanes blwyddyn 2–3. | 0 (modiwlau yn cael eu darparu gan staff Prifysgol Caerdydd). | <p>14 myfyriwr sy'n gallu siarad Cymraeg ar draws BI1–BI3.</p> <p>2 yn astudio ym mlwyddyn 2 drwy gyfrwng y Gymraeg.</p> |
| Prifysgol Aberystwyth | 40 credyd o Athroniaeth ar gael yn y Gymraeg yn gydweithredol ar gyfer myfyrwyr Gwleidyddiaeth blwyddyn 2–3. | Mae'r modiwlau hyn yn cael eu darparu gan staff Prifysgol Caerdydd), ond mae 1 aelod staff o Brifysgol Aberystwyth yn darparu modiwlau eraill gydag agweddau athronyddol. | <p>24 myfyriwr sy'n gallu siarad Cymraeg ar draws BI1–BI3</p> <p>7 yn astudio ym mlynnyddoedd 2–3 drwy gyfrwng y Gymraeg</p> |

¹ Gwybodaeth yn seiliedig ar y data HESA diweddaraf.

| | | | |
|--|---|--|--|
| <p>Prifysgol Cymru Y Drindod Dewi Sant</p> | <p>O leiaf 20 credyd o Athroniaeth ar gael yn y Gymraeg yn gydweithredol o fewn Astudiaethau Crefydd ar gyfer myfyrwyr blwyddyn 1, ac 20 credyd ar gael yn gydweithredol i fyfyrwyr blwyddyn 2–3.</p> | <p>0 (modiwlau yn cael eu darparu gan staff Prifysgol Caerdydd).</p> | <p>9 myfyriwr sy'n gallu siarad Cymraeg (BI1–BI3).</p> <p>2 yn astudio ym mlwyddyn 1 a 7 ym mlwyddyn 2–3 drwy gyfrwng y Gymraeg.</p> |
|--|---|--|--|

Datblygu'r maes: patrwm cenedlaethol

Profiad Myfyrwyr

Arweiniodd creu swydd Darlithydd Cenedlaethol mewn Athroniaeth drwy Gynllun Staffio Academaidd y Coleg at ddatblygu modiwlau newydd Cymraeg a Chymreig mewn Athroniaeth a Hanes Syniadau, gan adeiladu ar y traddodiad o ddysgu Athroniaeth yn y Gymraeg un ai fel pwnc penodol neu o fewn pynciau eraill megis Gwleidyddiaeth ac Astudiaethau Crefydd. Mae'r seiliau yma nawr wedi'u gosod er mwyn datblygu'r pwnc ymhellach.

Cyflwynwir 8 o fodiwlau Athroniaeth drwy gyfrwng y Gymraeg erbyn hyn ar draws y sefydliadau gyda nifer ohonynt ar gael fel modiwlau cydweithredol ac yn addas i'w cynnwys o fewn cynlluniau gradd Cymdeithaseg a Pholisi Cymdeithasol, Gwleidyddiaeth, Astudiaethau Crefydd, a Hanes.

Bydd Prifysgol Caerdydd yn ail-lansio'r radd Athroniaeth a'r Gymraeg, a chanolbwyntio yn ogystal ar ddatblygu gradd gyfun mewn Athroniaeth a Chrefydd, a thrwy hynny'n datblygu cyfleoedd astudio helaethach i fyfyrwyr. Bydd o leiaf 5 o'r modiwlau yn parhau ar lyfrau'r Ysgol Wleidyddiaeth yn y Brifysgol, sydd eisoes wedi cynnig ffrwd cyson o fyfyrwyr.

Trefnwyd cynadleddau Athroniaeth ar y cyd â'r Urdd Athronyddol yn flynyddol yn ogystal â digwyddiadau unigol ar gyfer myfyrwyr a chynulleidfaoedd lleyg o dan faner y Coleg Cymraeg Cenedlaethol.

O gyrraedd targed y cynllun newydd o gynnig o leiaf 40 credyd y flwyddyn trwy gyfrwng y Gymraeg ym mhrif gartref y ddarpariaeth Athroniaeth (Prifysgol Caerdydd), bydd modd i fyfyrwyr barhau i fanteisio ar Ysgoloriaethau Cymhelliant y Coleg Cymraeg a bydd modd eu hyrwyddo fel abwyd i ddenu myfyrwyr at radd gyfun mewn Athroniaeth.

Mewn perthynas â Phrifysgol Aberystwyth, lle y ceir traddodiad o ddarparu modiwlau damcaniaeth ac athroniaeth wleidyddol ers agos i dri degawd, cynigir tri modiwl sydd yn rhan o ddarpariaeth graidd a darpariaeth ddewisol yr Adran Gwleidyddiaeth Ryngwladol, a bydd posibilid o ychwanegu at y ddarpariaeth ddewisol honno dros y cyfnod nesaf.

Mewn perthynas â Phrifysgol Cymru Y Drindod Dewi Sant yn benodol (lle y ceir traddodiad hefyd o astudio tuag at yrfa addysgu), cynigir modiwlau sydd o gymorth i fyfyrwyr sy'n bwriadu bod yn athrawon Addysg Grefyddol – trwy amlygu nifer o elfennau'r maes llafur TGAU a Lefel A.

| | |
|--------------------------|--|
| <p>Darlithwyr</p> | <p>Ar hyn o bryd (2017), mae dau ddarlithydd cyfrwng Cymraeg yn addysgu'r pwnc. Mae gwaith y ddau ddarlithydd o gynnig modiwlau yn gydweithredol wedi galluogi creu modiwlau newydd mewn Athroniaeth drwy gyfrwng y Gymraeg gyda byd-olwg Cymreig.</p> <p>Mae sicrhau o leiaf dau ddarlithyddiaeth mewn un sefydliad yn gam cyntaf allweddol i gyrraedd meincnodau'r Cynllun Academaidd a sicrhau sylfaen gadarn ar gyfer darparu Athroniaeth fel pwnc gradd.</p> <p>Mae penodi ail ddarlithydd wedi arwain at ehangu'r ddarpariaeth, yn benodol ym Mhrifysgol Cymru Y Drindod Dewi Sant gyda 3 modiwl newydd wedi'u datblygu, lle yr oedd gofyn am fodiwlau Moeseg ac Athroniaeth Crefydd yn sgil newidiadau i faes llafur Lefel A 'Astudiaethau Crefyddol'. Mae'r ail benodiad hefyd yn cynnig cyfleoedd o ran datblygu modiwlau eraill ar gyfer Prifysgol Caerdydd ac yn gydweithredol i sefydliadau eraill, datblygu rhaglenni gradd a'r gallu i recriwtio myfyrwyr yn uniongyrchol i'r maes, gan dynnu rhywfaint o'r baich o addysgu 6 modiwl y flwyddyn oddi ar ysgwyddau'r darlithydd gwreiddiol.</p> <p>Bydd y cynllun newydd yn gweld datblygu'r ddarpariaeth ar y cyd ym maes Addysg Grefyddol ym Mhrifysgol Cymru Y Drindod Dewi Sant a Phrifysgol Bangor, ac mae'r datblygiadau athronyddol ym maes llafur Lefel A Astudiaethau Crefyddol yn ein hysgolion yn cynnig cyfle gwirioneddol i gynyddu apêl Athroniaeth a'i wneud yn ddewis ymarferol i fwy o fyfyrwyr sy'n medru'r Gymraeg yn ein prifysgolion. Fel y nodir uchod, mae'n debyg iawn y bydd rhai o'r modiwlau newydd a ddatblygir ar gyfer Prifysgol Caerdydd yn gymwys yn ogystal ar gyfer myfyrwyr Gwleidyddiaeth Ryngwladol Aberystwyth, gan ehangu eto eu dewis o bynciau.</p> <p>Ceir bellach dau fyfyrwr doethur, un ym maes Damcaniaeth Feirniadol, a'r llall yn astudio gwaith yr athronydd J. R. Jones.</p> <p>Bydd y Cynllun Pwnc newydd yn edrych i feithrin dau fyfyrwr PhD newydd yn ystod oes y cynllun pwnc newydd (hyd at 2022–23).</p> |
| <p>Cwricwlwm</p> | <p>Mae'r cwricwlwm Athroniaeth wedi ehangu i gynnig modiwlau sy'n cwmpasu athronwyr Cymreig ochr yn ochr â'r elfennau o'r canon rhyngwladol traddodiadol, ac yn hynny o beth mae'n ymgorffori'r agenda ymchwil sydd wedi'i mabwysiadu gan yr aelodau staff – sydd yn ystyried 'Athroniaeth Gymreig' fel endid unigryw sydd ar wahân i, ond eto'n gysylltiedig â'r maes yn ei gyfanrwydd.</p> |

| | |
|------------------------------------|--|
| | <p>Yn ystod oes y cynllun newydd bwriedir datblygu modiwlau craidd Athroniaeth ym Mhrifysgol Caerdydd gyda'r pwrpas o gynnig rhaglenni gradd cyfun a fydd yn cynnwys darpariaeth athronyddol cwbl Gymraeg a Chymreig.</p> <p>Mae'r newidiadau a nodwyd uchod i faes llafur Lefel A 'Astudiaethau Crefyddol' yn golygu fod galw am fwy o bwyslais ar Foeseg o fewn y cwricwlwm ysgolion, ac yn yr un modd mae newidiadau i faes llafur Lefel A 'Llywodraeth a Gwleidyddiaeth' hefyd wedi arwain at fwy o bwyslais ar Athroniaeth Wleidyddol. Er mwyn ymateb i'r newidiadau cwricwlaidd hyn, mae galw ac angen addasu'r ddarpariaeth mewn prifysgolion hefyd a chreu rhai modiwlau pwrpasol newydd.</p> <p>Bydd y Cynllun yn edrych ar ddatblygu'r berthynas â'r Adran Astudiaethau Crefyddol a Diwinyddol ym Mhrifysgol Cymru Y Drindod Dewi Sant a'r Adran Athroniaeth a Chrefydd ym Mhrifysgol Bangor. Gwelir yn achos DDS yn arbennig bod nifer o'r myfyrwyr yn mynd ymlaen i fod yn athrawon Addysg Grefyddol mewn ysgolion. Gyda phwyslais y maes llafur Lefel A yn gwyro fwyfwy tuag at ddysgu elfennau o Foeseg ac Athroniaeth, bydd cyfle i gyd-weithio gyda'r DDS er mwyn cynnig modiwlau a fydd yn rhan o gwricwlwm a fydd o fudd i ddarpar athrawon.</p> |
| <p>Canlyniadau Myfyrwyr</p> | <p>Mae canlyniadau'r myfyrwyr ar y modiwlau cyfrwng Cymraeg yn cymharu'n ffafriol â myfyrwyr o fewn eu hadrannau / ysgolion, er bod cymhariaeth deg yn anodd o ystyried mai niferoedd cyfyngedig sydd ar y modiwlau.</p> |
| <p>Adnoddau</p> | <p>Elwodd y pwnc yn hael o gynlluniau'r Coleg Cymraeg i ddigido hen gyhoeddiadau Cymraeg ym maes Athroniaeth. Sicrhaodd hyn fod deunyddiau craidd o safon ar gael i fyfyrwyr yn agored ar y Porth. Mae'r cynllun newydd yn adnabod yr angen i geisio ymestyn y ddarpariaeth hon lle bo cyfle.</p> <p>Elwodd y pwnc hefyd ar gyhoeddi gwaith newydd ym maes Athroniaeth Gymraeg gan yr Urdd Athronyddol, yn benodol y gyfres Astudiaethau Athronyddol, sydd yn olynydd i adnodd addysgu arall sylweddol, sef yr hen gyfnodolyn <i>Efrydiau Athronyddol</i>.</p> <p>Mae'r cynllun hefyd yn cydnabod mai'r cam nesaf sydd ei angen i gefnogi'r maes fydd datblygu deunyddiau newydd a chydweithio gyda Chyd-bwyllgor Addysg Cymru i ddatblygu adnoddau ar gyfer myfyrwyr Lefel A ym maes Addysg Grefyddol. Mae gwaith tebyg eisoes yn mynd rhagddo ym maes Gwleidyddiaeth ar y cyd â staff yn Adran Wleidyddiaeth Ryngwladol Prifysgol Aberystwyth. Mae gwaith ar droed hefyd gan Dr Huw</p> |

| | |
|--|---|
| | <p>Lewis a Dr Huw Williams i ddatblygu adnoddau gyda chwmni Atebol ar gyfer cefnogi addysgu Uned 3, 'Cysyniadau a Damcaniaethau Gwleidyddol' ar gyfer cwricwlwm Lefel A 'Llywodraeth a Gwleidyddiaeth' i CBAC.</p> <p>Bydd hefyd angen datblygu adnoddau newydd electronig ar hyd llinellau 'Cyflwyniad i Athroniaeth' ar gyfer myfyrwyr prifysgol ond a fydd hefyd o ddefnydd i fyfyrwyr Lefel A. Mae gwaith eisoes wedi cael ei gyflawni trwy Grant Bach y Coleg, sydd wedi ariannu cyfieithiadau o waith Nietzsche a Paul Tillich.</p> |
| <p>Cyflogadwyedd (gan gynnwys Galw gan Gyflogwyr)</p> | <p>Er nad yw Athroniaeth yn bwnc galwedigaethol nac ychwaith yn bwnc craidd mewn ysgolion, cydnabyddir erbyn hyn fanteision astudio'r pwnc o ran magu sgiliau trosglwyddadwy megis meddwl beirniadol a chreadigol, a sicrhau gradd sydd ag iddi barch ymysg cyflogwyr. Mae canlyniadau diweddar yn awgrymu bod graddedigion Athroniaeth yn curo pynciau megis Ffiseg a Gwyddorau Cyfrifiadurol o safbwynt cyflogadwyedd, a bod y pwnc ymysg y 12 maes mwyaf llewyrchus yn y cyd-destun hwn: (http://www.telegraph.co.uk/education/0/graduate-jobs-top-12-degree-subjects-getting-job/12-historical-philosophical-studies-a-perhaps-surprising-inclusion/) Mae ymchwil o'r UDA yn awgrymu mai dyma'r maes yn y Dyniaethau sy'n arwain at y cyflogau gorau: https://www.theatlantic.com/notes/2015/09/philosophy-majors-out-earn-other-humanities/403555/</p> <p>O gyrraedd 40 credyd yn y Gymraeg, bydd Athroniaeth yn cynnig sail gref i'r myfyrwyr o safbwynt meistrioli defnydd o'r iaith a datblygu mynegiant cywir a chroyw o gysyniadau a dadleuon. Bydd sefydliadau ym maes polisi, addysg a newyddiaduraeth yn arbennig yn elwa o sgiliau myfyrwyr Athroniaeth.</p> <p>Gyda bwriad Llywodraeth Cymru i symud Addysg Grefyddol fel pwnc yn fwy at drywydd Athroniaeth, bydd gradd sengl neu gyfun mewn Athroniaeth yn cynnig llwybr amlwg i nifer o fyfyrwyr y pwnc.</p> <p>Bydd hefyd angen datblygu llwybrau gyrfa amgen ôl-radd i fyfyrwyr Athroniaeth gan gynnwys ym maes y Gyfraith, Gwleidyddiaeth, a hefyd Masnach.</p> |
| <p>Cynaliadwyedd (gan gynnwys Dilyniant)</p> | <p>Y tebygrwydd yw y bydd Athroniaeth yn bwnc sy'n denu llai o fyfyrwyr na phynciau mwy galwedigaethol neu draddodiadol. Ceir felly sawl her o ran datblygu pwnc sydd â nifer fechan o fyfyrwyr posib sydd am ei astudio.</p> |

| | |
|--|--|
| | <p>Bydd yn flaenoriaeth i sicrhau bod y Lefel A 'Addysg Grefyddol' ar ei newydd wedd yn cynnwys elfennau athronyddol a bod dilyniant i hynny, lle bo'n bosibl, yn y ddarpariaeth addysg prifysgol.</p> <p>Bydd angen parhau i drefnu digwyddiadau ar gyfer myfyrwyr Lefel A sy'n astudio'r pynciau sydd fwyaf tebygol o arwain at astudio modiwlau Athroniaeth – Addysg Grefyddol, Cymraeg a Hanes.</p> <p>Bydd angen meithrin dau fyfyrwr PhD ym maes Athroniaeth yn ystod cyfnod y cynllun hwn fel darlithwyr arfaethediger mwyn sicrhau cynllun pwrpasol i ddatblygu capasiti staffio a dilyniant, ynghyd ag ystod ehangach o fodiwlau posibl ar gael yn y dyfodol.</p> <p>Bydd angen datblygu cynlluniau gradd cyfun mewn Athroniaeth trwy gyfrwng y Gymraeg ym Mhrifysgol Caerdydd yn benodol, i'w cynnig ar y cyd â'r Gymraeg a Chrefydd, yn ogystal â chynnig modiwlau a fydd ar gael yn gydweithredol yng Nghaerdydd ac mewn sefydliadau eraill sydd o ddiddordeb i fyfyrwyr ar gynlluniau gradd eraill megis Gwleidyddiaeth, Astudiaethau Crefydd, Hanes a hyd yn oed y Gyfraith neu Bolisi Cymdeithasol a Chymdeithaseg.</p> <p>Mae'r cynllun felly'n canolbwyntio ar ddwy elfen, sef datblygu'r ddarpariaeth fel pwnc gradd ym Mhrifysgol Caerdydd gyda'r bwriad o recriwtio uniongyrchol, a chynnal a datblygu darpariaeth gydweithredol sydd yn ategu ac ychwanegu at gynlluniau gradd eraill ar draws y prifysgolion. Yn unol â datblygiadau ym Mhrifysgol Bangor, mae'n bosibl y bydd hyn yn ehangu o'r meysydd cyfredol i faes Cymdeithaseg a Pholisi Cymdeithasol yn y dyfodol.</p> |
|--|--|

| Blaenoriaethau cynllunio cenedlaethol | | | |
|--|---|---|--|
| Nod gweithredu | Targedau blwyddyn (2017/18) | Targedau 3 mlynedd (2019/20) | Targedau 5 mlynedd (2021/22) |
| 1. Cynyddu'r nifer o fyfyrwyr sy'n astudio o leiaf 40 credyd bob blwyddyn | <p>O leiaf 4 myfyriwr yn astudio 40 credyd ar gynlluniau gradd Athroniaeth unigol.</p> <p>O leiaf 19 myfyriwr yn dilyn modiwlau cydweithredol Athroniaeth er eu bod yn astudio ar gynlluniau gradd mewn pynciau eraill.²</p> | <p>O leiaf 5 myfyriwr yn astudio 40 credyd ar gynlluniau gradd Athroniaeth unigol.</p> <p>O leiaf 22 myfyriwr yn dilyn modiwlau cydweithredol Athroniaeth er eu bod yn astudio ar gynlluniau gradd mewn pynciau eraill.</p> | <p>O leiaf 18 myfyriwr yn astudio 40 credyd ar gynlluniau gradd Athroniaeth unigol.</p> <p>O leiaf 24 myfyriwr yn dilyn modiwlau cydweithredol Athroniaeth er eu bod yn astudio ar gynlluniau gradd mewn pynciau eraill.</p> |
| 2. Cynyddu'r nifer o PhDs | | O leiaf un PhD cyfrwng Cymraeg newydd bob dwy flynedd. | O leiaf un PhD cyfrwng Cymraeg newydd bob dwy flynedd. |
| 3. Darpariaeth Lefel 3 / Graddau Sylfaen | Datblygu perthynas ffurfiol â Chyd-bwyllgor Addysg Cymru a chyrsgiau Lefel A. | Sefydlu sesiynau blynyddol ar gyfer myfyrwyr Astudiaethau Crefydd TGAU a Lefel A. | Cydweithio â Cholegau Addysg Bellach a CBAC i ddatblygu adnoddau i ddarpar-fyfyrwyr gradd. |
| 4. Adnoddau | Cytuno ar dermau cenedlaethol i'r maes. | | |

² Caiff y myfyrwyr hyn eu cyfrifo yn y cynlluniau pwnc perthnasol, e.e. Gwleidyddiaeth, Diwinyddiaeth ac Astudiaethau Crefydd, Hanes, ayyb. Noder hefyd bod y nifer o fodiwlau sydd yn rhedeg ar sail cydweithredol yn newid o flwyddyn i flwyddyn.

| | | | |
|--------------------------------------|--|--|---|
| | Digïdo hen gyhoeddiadau. | Dechrau datblygu e-lyfr 'Cyflwyniad i Athroniaeth' ar gyfer myfyrwyr Lefel A / BI1 | Cyhoeddi e-lyfr 'Cyflwyniad i Athroniaeth' ar gyfer myfyrwyr Lefel A / BI1 |
| 5. Datblygu Cwricwlwm Cymreig | <p>Datblygu ymchwil a modiwlau ar athroniaeth Gymreig.</p> <p>Parhau i gydweithio ag Urdd Athronyddol Prifysgol Cymru, e.e. Cynhadledd flynyddol, cydgyhoeddi achlysurol.</p> <p>Edrych i ddatblygu cysylltiadau â rhwydwaith ehangach o Athronwyr lleyg, e.e. Cynulliad Cenedlaethol Cymru.</p> | <p>Datblygu modiwlau craidd Athroniaeth i Brifysgol Caerdydd.</p> <p>Ail-lansio'r radd Athroniaeth a'r Gymraeg.</p> <p>Digwyddiad cenedlaethol blynyddol ar gyfer athrawon a disgyblion ysgol.</p> <p>Parhau i gydweithio ag Urdd Athronyddol Prifysgol Cymru, e.e. Cynhadledd flynyddol, cydgyhoeddi achlysurol.</p> <p>Edrych i ddatblygu cysylltiadau â rhwydwaith ehangach o Athronwyr lleyg, e.e. Cynulliad Cenedlaethol Cymru.</p> | <p>Digwyddiad cenedlaethol blynyddol ar gyfer athrawon a disgyblion ysgol i godi ymwybyddiaeth a diddordeb yn y pwnc ac i helpu datblygu dealltwriaeth ac adnoddau.</p> <p>Parhau i gydweithio ag Urdd Athronyddol Prifysgol Cymru, e.e. Cynhadledd flynyddol, cydgyhoeddi achlysurol.</p> <p>Edrych i ddatblygu cysylltiadau â rhwydwaith ehangach o Athronwyr lleyg, e.e. Cynulliad Cenedlaethol Cymru.</p> |

Datblygu'r maes: targedau sefydliadol

| Sefydliad | Nod gweithredu | Targedau blwyddyn (2017/18) | Targedau 3 mlynedd (2019/20) | Targedau 5 mlynedd (2021/22) |
|---------------------------|-----------------------|--|--|---|
| Prifysgol Caerdydd | Myfyrwyr | O leiaf 6 myfyriwr ym mhob blwyddyn. 2 o rheiny ym mhob blwyddyn yn fyfyrwyr cynllun gradd Athroniaeth [ac o leiaf 4 ym mhob blwyddyn yn dilyn modiwlau cydweithredol Athroniaeth ar gynlluniau gradd eraill, e.e. Gwleidyddiaeth]. | O leiaf 6 myfyriwr ym mhob blwyddyn. 2 o rheiny ym mhob blwyddyn yn fyfyrwyr cynllun gradd Athroniaeth [ac o leiaf 4 ym mhob blwyddyn yn dilyn modiwlau cydweithredol Athroniaeth ar gynlluniau gradd eraill, e.e. Gwleidyddiaeth]. | O leiaf 10 myfyriwr ym mhob blwyddyn. 6 o rheiny ym mhob blwyddyn yn fyfyrwyr cynllun gradd Athroniaeth [ac o leiaf 4 ym mhob blwyddyn yn dilyn modiwlau cydweithredol Athroniaeth ar gynlluniau gradd eraill, e.e. Gwleidyddiaeth]. |
| | Nifer y Darlithwyr | O leiaf 1.5 aelod staff CALI | O leiaf 2 aelod staff CALI | O leiaf 2 aelod staff CALI |
| | Darpariaeth | O leiaf 40 credyd ar gael mewn Athroniaeth ym mhob blwyddyn drwy gyfrwng y Gymraeg. | O leiaf 40 credyd ar gael mewn Athroniaeth ym mlwyddyn 1, a 60 credyd ym mlwyddyn 2 a 3. | O leiaf 60 credyd ar gael ym mhob blwyddyn drwy gyfrwng y Gymraeg gyda dewis o fodiwlau. |
| | Modiwlau | | O leiaf dau fodiwl Athroniaeth Crefydd ac | O leiaf dau fodiwl arall |

| | | | | |
|------------------------------|---|---|---|--|
| | | Cynnal y ddarpariaeth bresennol, gan gynnwys pob modiwl cydweithredol. | Athroniaeth Wleidyddol ychwanegol. | |
| Prifysgol Aberystwyth | Myfyrwyr (yn ddibynnol ar pan fydd modiwl yn rhedeg – fel arfer bob yn ail flwyddyn). | [O leiaf 5 myfyriwr yn dilyn modiwlau cydweithredol Athroniaeth ar gynlluniau gradd eraill, e.e. Gwleidyddiaeth]. | [O leiaf 7 myfyriwr yn dilyn modiwlau cydweithredol Athroniaeth ar gynlluniau gradd eraill, e.e. Gwleidyddiaeth]. | [O leiaf 8 myfyriwr yn dilyn modiwlau cydweithredol Athroniaeth ar gynlluniau gradd eraill, e.e. Gwleidyddiaeth]. ³ |
| | Nifer Darlithwyr | 1 aelod staff Prifysgol Aberystwyth sy'n darparu modiwlau gydag agweddau athronyddol/damcaniaethol; 1 aelod staff Prifysgol Caerdydd yn darparu'n gydweithredol. | | |
| | Darpariaeth | O leiaf 20 credyd mewn Athroniaeth trwy gyfrwng y Gymraeg yn cael eu darparu'n gydweithredol. ⁴ | O leiaf 20 credyd mewn Athroniaeth trwy gyfrwng y Gymraeg yn cael eu darparu'n gydweithredol (cynnydd mewn darpariaeth yn ddibynnol | O leiaf 20 credyd mewn Athroniaeth trwy gyfrwng y Gymraeg yn cael eu darparu'n gydweithredol. |

³ Oherwydd y darperir y modiwlau cydweithredol i Brifysgol Aberystwyth bob yn ail flwyddyn, mae'n debyg mai yn 2018/19 a 2020/21 y cyrhaeddir y targedau uchod.

⁴ Noder eto bod 40 credyd o fodiwlau Athroniaeth yn cael eu cynnig am yn ail flwyddyn yn gydweithredol ym Mhrifysgol Aberystwyth.

| | | | | |
|-------------------------|------------------|---|--|--|
| | | | ar ddyhead Aberystwyth i fanteisio ar fodiwlau newydd). | |
| | Modiwlau | Cynnal y ddarpariaeth bresennol, sef 3 modiwl Syniadaeth Wleidyddol (cydweithredol). | | |
| Prifysgol Bangor | Myfyrwyr | [O leiaf 2 fyfyrwr yn dilyn modiwlau cydweithredol Athroniaeth o fewn yr adran Astudiaethau Crefydd]. | [O leiaf 4 myfyrwr yn dilyn modiwlau cydweithredol Athroniaeth o fewn yr adran Astudiaethau Crefydd]. | [O leiaf 8 myfyrwr yn dilyn modiwlau cydweithredol Athroniaeth o fewn yr adran Astudiaethau Crefydd]. |
| | Nifer Darlithwyr | 2 aelod rhan-amser o staff Prifysgol Bangor sy'n addysgu yn y Gymraeg; 1 aelod staff Prifysgol Caerdydd yn darparu'n gydweithredol. | Wrth i'r berthynas ddatblygu mae'n bosibl y bydd angen rhagor o gapasiti staffio cyfrwng Cymraeg yn lleol er mwyn cefnogi'r ddarpariaeth mewn Athroniaeth. | |
| | Darpariaeth | O leiaf 20 credyd y flwyddyn o Athroniaeth drwy gyfrwng y Gymraeg yn cael eu darparu'n gydweithredol. | O leiaf 20 credyd y flwyddyn o Athroniaeth drwy gyfrwng y Gymraeg yn cael eu darparu'n gydweithredol. | O leiaf 100 credyd o Athroniaeth drwy gyfrwng y Gymraeg yn cael eu darparu'n gydweithredol ar draws y blynyddoedd. |

| | | | | |
|-----------------------|--------------------|---|---|---|
| | Modiwlau | | Sefydlu modiwlau cydweithredol Moeseg ac Athroniaeth Crefydd newydd o fewn darpariaeth yr adran. | |
| | Modiwlau | Cynnal y ddarpariaeth bresennol, sef 3 modiwl Athroniaeth (cydweithredol). | O leiaf un modiwl Athroniaeth Crefydd neu Athroniaeth Wleidyddol ychwanegol yn cael eu darparu'n gydweithredol. | O leiaf dau fodiwl arall yn cael eu darparu'n gydweithredol. |
| Prifysgol DDS* | Myfyrwyr | [O leiaf 2 fyfyrwr ym mhob blwyddyn yn dilyn modiwlau cydweithredol Athroniaeth ar gynlluniau gradd eraill, e.e. Astudiaethau Crefydd]. | [O leiaf 2 fyfyrwr ym mhob blwyddyn yn dilyn modiwlau cydweithredol Athroniaeth ar gynlluniau gradd eraill, e.e. Astudiaethau Crefydd]. | [O leiaf 4 fyfyrwr ym mhob blwyddyn yn dilyn modiwlau cydweithredol Athroniaeth ar gynlluniau gradd eraill, e.e. Astudiaethau Crefydd]. |
| | Nifer y darlithwyr | Aelodau staff Prifysgol Caerdydd yn darparu'n gydweithredol. | <i>Wrth i'r berthynas ddatblygu mae'n bosibl y bydd angen rhagor o gapasiti staffio cyfrwng Cymraeg yn lleol er mwyn cefnogi'r ddarpariaeth mewn Athroniaeth.</i> | |
| | Darpariaeth | O leiaf 20 credyd y flwyddyn o Athroniaeth drwy gyfrwng y Gymraeg yn cael eu darparu'n gydweithredol. | O leiaf 20 credyd y flwyddyn o Athroniaeth trwy gyfrwng y Gymraeg yn cael eu darparu'n gydweithredol. | O leiaf 20 credyd y flwyddyn o Athroniaeth trwy gyfrwng y Gymraeg yn cael eu darparu'n gydweithredol. |

| | | | | |
|--|----------|---|---|---|
| | | | | |
| | Modiwlau | Un modiwl Moeseg ac un Athroniaeth Crefydd. | Posibiliad o gynnig 20 credyd BI1 a 60 credyd BI2–3 o fodiwlau cydweithredol gan ddibynnu ar ddatblygiadau. | Posibiliad o gynnig 20 credyd BI1 a 60 credyd BI2–3 o fodiwlau cydweithredol gan ddibynnu ar ddatblygiadau. |